

Cyfnewidfa Rheolaeth Cyswllt Ffermio

Hywel Morgan

Pynciau: Ffermio Mewnbwn Isel, Ffermio Organig, Gwyndwn Llysiâu, Rheolaeth Holistaidd a Ffermio Atgynhyrchiol.

Gwledydd a llefydd y bûm yn ymweld â nhw:

Llydaw Hydref 2018,

Lloegr: Cotswolds Medi, Rhagfyr 2018, Caerwrangon Chwefror 2019

Cefndir

Rwy'n ffermio mewn partneriaeth â fy rhieni ym Myddfai ym Mannau Brycheiniog. Mae Esgairllaethdy yn fferm fynydd eidion a defaid 160 erw gyda hawliau pori ar y tir comin gerllaw. Ar hyn o bryd yn cedwir 500 o famogiaid a 150 o wŷn benyw cyfnewid a tua 80 o wartheg. Amrywiaeth o wartheg Angus x Hereford x gwartheg stôr a buches gynyddol o loi sugno gwartheg yr ucheldir. Yn y gorffennol roeddem yn defnyddio llawer o wrtaith ac yn chwistrellu caeau cyn eu hail-hadu. Wrth edrych tua'r dyfodol ryw'n awyddus i roi'r gorau i ddefnyddio bagiau gwrtaitaith a chemegau. Roedd fy ymweliadau cyfnewid wedi'u targedu at ffermydd nad oedd yn defnyddio unrhyw un o'r rhain. Trwy ymweld â'r ffermydd hyn, roeddwn yn gobeithio dysgu mwy ynglŷn â sut i dyfu glaswellt a rheoli'r fferm mewn dull sy'n fwy cydnaws â'r amgylchedd. Dyma mae cwsmeriaid yn gofyn amdano pan fyddaf yn gwerthu cig oen ym Marchnad y Ffermwyr.

Trefn y Daith

Fel sawl taith, roeddwn yn newid y llefydd yr oeddwn eisiau ymweld â nhw wrth fynd yn fy mlaen, a hynny dan ddylanwad ffermwyr y cefais gyfle i'w cyfarfod ar fy nheithiau cyfnewid, yn arbennig Geraint Powell, Ysgolor Nuffield.



HONEYDALE FARM

Es ar fy ymweliad cyntaf ym mis Medi i Honeydale Farm yn y Cotswolds. Mae Honeydale yn eiddo i Ian Wilkinson o Cotswold Seeds. Yma cefais gyfle i gyfarfod Sam Lane, rheolwr y fferm. Eglurodd Sam sut y prynodd Ian Wilkinson fferm â'r aflwyddiannus gyda'r bwriad o'i thrawsnewid yn fferm borfa a Chanolfan Ymchwil ac Addysg gyda'r amgylchedd wrth wraidd bob

penderfyniad. Maent yn tyfu llawer o wyndwn llysiâu. Trwy dyfu gwyndwn llysiâu, maent yn trawsnewid y priddoedd yn ôl yn dir cynhyrchiol. Mae rhywogaethau planhigion amrywiol, sy'n gwreiddio'n ddwfn ac yn creu proses sefydlogiad nitrogen ac ailgyflwyno da byw yn gwella ffrwythlondeb y priddoedd a'u gallu i ddal dŵr. Mae cychod gwenyn, perllannau a phyllau'n denu bywyd gwylt a phryfed sydd yn eu tro'n helpu bioamrywiaeth. Gydag amrywiaeth fawr o hadau sy'n gwreiddio'n ddwfn eglurodd Sam sut mae'r gwyndwn llysiâu hefyd yn chwarae rhan fawr mewn dal a storio carbon. Tra bûm yn Honeydale daeth nifer o bobl eraill yno o wahanol gyrff amgylcheddol i ddysgu mwy am yr hyn oedd yn digwydd yno. Bydd hyn yn addysgu eraill am fanteision gwyndwn llysiâu.



GERAINT POWELL



Daeth Geraint Powell, Ysgolor Nuffield, i fy nghyfarfod yn Honeydale. Pwnc Geraint ar gyfer ei Ysgoloriaeth Nuffield oedd “Strategaethau pori cynaliadwy sy’n bodloni gofynion ecolegol”. Pwysleisiodd Geraint fanteision gwyndwn llysiau i gynhyrchu da byw. O Honeydale aeth Geraint a minnau i’r tir gerllaw lle mae Geraint yn ffermio i weld sut mae wedi gweithredu cynllun tyfu gwyndwn llysiau mewn Cynllun Stiwardiaeth a sut mae ei ddiadell o 4000 famogiaid a 50 o wartheg yn elwa ar hyn. Crëwyd argraff arnaf gan y ffordd yr oeddent yn gorffen wŷn ar wyndwn llysiau gyda phwysau byw dyddiol da ar dir caregog Cotswold. Ffermwyr tenant yw Geraint a’i bartner busnes, maent yn rheoli’r tir ar gyfer perchnogion tir cyfoethog sy’n cymryd yr holl daliadau amaeth amgylcheddol a BPS. Gwneud elw o borfa yw eu hunig ffynhonnell incwm a dywed Geraint fod gwyndwn llysiau’n chwarae rhan fawr yn ei fusnes. Dywed hefyd os byddwn yn dal ati i ffermio yn y ffordd y mae’r rhan fwyaf o ffermwyr yn ei wneud ar hyn o bryd y byddwn yn mynd i drafferthion. Gyda syniad y cyhoedd yn newid a phroblemau hinsawdd, rhaid i ni fel ffermwyr addasu a newid er mwyn goroesi. Yn y pen draw fydd neb yn elwa ar berchnogion tir cyfoethog sy’n cymryd taliadau enfawr ac yn peidio ag ail-fuddsoddi yn y priddoedd neu’r cymunedau.



RHEOLAETH HOLISTAIDD, 3LM



Rhan nesaf fy Nghyfnewidfa Rheolaeth oedd cwrs 3 diwrnod ar Reolaeth Holistaidd, yn Esgairllaethdy, lle gwahoddwyd Christopher Cooke 3LM, rhan o Allan Savory Institute UK. Rheolaeth Holistaidd, yn syml, yw edrych ar y darlun mawr o bopeth yr ydych yn ei wneud o fewn eich busnes. Rhaid ystyried gwneud elw, gweithio gyda'r amgylchedd, lles anifeiliaid, iechyd a lles pobl, lles cymunedau ac agweddau cymdeithasol ac ansawdd bywyd ym mhopeth a wnawn fel ffermwyr. Mae cynllun pori holistaidd yn ddull allweddol i reoli da byw a phridd a phorfa. Eglurodd Christopher yr angen i astudio'r 4 proses ecosystem:




Cylch Dŵr: Mae dŵr yn adnodd cyfyngedig ac mae angen ei ailgylchu'n effeithiol. Rhaid i bob diferyn o law sy'n disgyn ar y tir fynd i mewn i'r tir yn hytrach na llifo fel dŵr ffo gan

fynd â phridd a maetholion gydag o neu gael ei anweddu. Dylai dŵr fynd i'r atmosffer drwy dwf planhigion neu symud drwy'r pridd i fannau storio naturiol danddaear.

Cylch Mwynol: Symudiad maetholion mwynol o'r pridd i blanhigion i anifeiliaid ac yn ôl i'r pridd. Mae planhigion yn derbyn maetholion o'r pridd ac anifeiliaid ac yn ailgylchu'r maetholion yn ôl i'r pridd naill ai drwy fwyta neu sathru ar y planhigion.

Llif Ynni: Llif ynni o'r haul i blanhigion gwyrdd sy'n tyfu, sy'n troi'r ynni drwy ffotosynthesis – sy'n ffynhonnell i bopeth byw.

Dynameg y Gymuned: Po fwyaf cymhleth ac amrywiol fydd cymunedau, po fwyaf sefydlog yw poblogaethau. Mae bioamrywiaeth yn wirioneddol bwysig.



TEULU GUEZENOC KERLOUAN LLYDAW



Yn Hydref teithiais i Lydaw yn Ffrainc i ymweld â George Guezenoc a'i deulu. Mae George Guezenoc yn ffermwr â'r llysiâu organig. Mae'n llywydd y gymdeithas organig yn Llydaw. Mae'r teulu'n marchnata eu llysiâu drwy Fenter Gydwethredol Prince de Bretagne.

Eglurodd George a'i fab Leo a'i ferch Aurore sut maent yn llwyddo i dyfu cnwd llwyddiannus o lysiau a grawnfwydydd heb wrtaith artiffisialn a chemegau. Mae cylchdroi cnydau'n allweddol er mwyn rheoli pla a thrwy dyfu llysiau maent yn rhoi nitrogen yn eu pridd. Mae ganddynt gytundeb gyda ffermwr llaeth organig i gael tail fferm yn gyfnewid am rawnfwydydd. Mae tail fferm, llysiau a gwymon yn bwysig i ffrwythlondeb y pridd ac mae cylchdroi cnydau'n bwysig er mwyn rheoli pla yn ogystal â ffrwythlondeb ac iechyd y pridd. Eglurodd George ar gyfer pob pla unigol fod tua 1700 o ysglyfaethwyr, os chwistrellir cemegau, maent yn dinistrio'r ysglyfaethwyr ac iechyd y pridd ac iechyd pobl!!!





Aeth Aurore â mi ar ymweliad â fferm laeth organig sy'n cyfnewid tail fferm am rawnfwydydd o fferm deuluol Aurore. Mae'r teulu Morvan yn defnyddio gwyndwn meillion a llyisiau i dyfu mwy o borfa a phorthiant o ansawdd gwell. Maent yn tyfu india corn o safon hefyd heb fewnbwn artiffisial. Fel eraill y bûm yn ymweld â nhw, maent yn argyhoeddedig bod gwrteithiau artiffisial a chemegau'n niweidiol i iechyd y pridd a chynhyrchu cynydau. Cynyddodd Teulu Morvan faint eu fferm o 30 Ha i 150 Ha drwy arbed costau gwrtaitaith a chemegau a thrwy'r bonws organig ar bris llaeth. Mae tri o bobl yn gweithio arf y fferm ac maent yn gosod tri o beiriannau godro robotaid, er mwyn gallu treulio mwy o amser gyda'r teulu a chael amser rhydd, sy'n bwysig iawn i bobl Ffrainc. Mae ffermwyr organig a ffermwyr o dan 40 oed yn cael grant o 50% ar gyfer buddsoddiadau a pheiriannau penodol.





ROB RICHMOND



Yn Rhagfyr teithiais i Cirencester i ymweld â Rob Richmond cyn Ysgolor Nuffield. Mae Manor Farm yn fferm laeth organig 850 erw ar denantiaeth (500 yn borfa a 350 yn goetir). Mae Rob yn godro 300 o fuchod Friesians/Byrgorn ac mae 200 o stoc ifanc ar gyfer cyfnewid, y cyfan yn cael eu cadw allan dros y gaeaf. Mae gan Rob gontract organig, rhydd o wrthfotigau gydag OMSCO. Mae Rob yn cyflogi un gweithiwr llawn amser. Os oes angen gwrthfotigau ar unrhyw anifail bydd yn ei wahanu oddi wrth y fuches yn awtomatig. Dim ond tair buchch sydd wedi gadael ei fuches ers iddo lunio contract lle nad yw'n defnyddio gwrthfotigau. Mae Rob yn llwyddo i gadw ei fuchod allan ar hyd y flwyddyn ar borfa wedi'i chadw a phlanhigion brassica. Nid yw'n defnyddio unrhyw borthiant ychwanegol ar wahân i fynau

cnwd cyflawn mewn cyfnodau o dywydd eithafol (sychder). Mae cost peiriannau a chadw anifeiliaid dan do yn isel iawn, a does dim angen clirio tail.



Trwy gadw porfa yn hytrach na'i chynaeafu, dywed Rob ei fod yn arbed costau contractio ac mae'r porthiant wastad o flaen yr anifeiliaid trwy symud ffens drydan bob dydd. Trwy adael i'r borfa dyfu am gyfnod hirach, mae'r gwreiddiau'n treiddio'n ddyfnach sy'n golygu bod y glaswellt yn gallu cael dŵr yn ddwfn o'r ddaear yn ystod hafau sych. Yn ei dro mae hyn yn golygu y gall dyfu mwy o borfa flwyddyn ar ôl blwyddyn. Mae'r borfa a gedwir o werth uwch na gwair. Yn ddiweddar cyflwynwyd gwyndwn llysiau ac mae'n ymddangos hyn yn helpu i

dyfu mwy o laswellt gan fod eu gwreiddio'n ddyfnach ac mewn tywydd gwlyb maent yn helpu i ddraenio'r tir. Defnyddir podiau gwellt fel llecynnau i wartheg orwedd yn ystod y gaeaf ac erbyn amser lloia mae lle glân braf ar gyfer y lloi. Mae'r cyhoedd hefyd yn gefnogol i bodiau gwellt hefyd gan eu bod yn gweld bod y gwartheg yn gyfforddus yn ystod gaeafau gwlyb. Pwysleisiodd Rob fod yn rhaid i ni weithio law yn llaw â natur ac nid yn ei erbyn.



ROB HAVARD



Yn Chwefror 2019 teithiais i Droitwich, Caerwrangon i ymweld â Rob Havard yn Phepson Farm. Byddwn yn disgrifio system Rob fel ffermio atgynhyrchiol. Mae'n ffermio 170 Ha o borfa gyda 90 o wartheg Angus pedigri. Caiff y bustych a'r heffrod eu gorffen a'u gwerthu i ABP. Hefyd gwerthir teirw pedigri ar gyfer bridio.





Mae hefyd yn ecolegydd llawn amser i Natural England. Mae Rob yn cadw porfa ac yna'n troi llawer o stoc arni - mae hyn yn ei alluogi i wella deunydd organig ac iechyd y pridd. Mae'n rhannu caeau mawr yn leiniau bach gyda ffensys trydan. Caiff y lleiniau eu pori am 2 i 4 diwrnod ac yna fe'u gadewir yn wag am tua 60 diwrnod. Er y bydd rhai'n barod i'w pori ymhen 20 diwrnod mae rhai'n cael eu cadw'n wag am hyd at 100 diwrnod.



Ar ôl ychydig o flynyddoedd yn gweithredu ei system mae Rob bellach yn llwyddo i gadw ei holl wartheg allan drwy'r gaeaf ar ei dir cleiog trwm. Dywed fod gadael i'r borfa dyfu am gyfnod hirach cyn ei phori'n golygu bod y planhigion yn gwreiddio'n ddyfnach i helpu i ddraenio'r tir ac mae hyn hefyd yn galluogi i'r planhigion gael hyd i fwy o fwynau ar gyfer yr anifeiliaid. Yn y gaeaf caiff byrnau gwair eu rhoi ar y llain sydd newydd ei phori - un ar gyfer pob 20 buwch. Mae'r gwaith yma nid yn unig yn bwydo'r gwartheg ond hefyd yn gweithredu fel nitrogen ar gyfer y pridd. Mae Rob yn prynu gwair i mewn o ffermydd penodol yn unig gan ei fod yn gwybod yn union pa hadau y mae eisiau eu cyflwyno i'w dir. Defnyddir podiau gwair mewn cyfnodau o dywydd eithafol ac yn ystod cyfnod diddyfnu. Bydd tua 8 o fyrnau mewn ardal fach ar gael i'r gwartheg, yna ar ôl iddynt gael eu bwyta caiff y gwartheg eu symud i'r rhan nesaf o'r cae y tu ôl i ffens drydan. Yma mae'r broses o ddiddynu'r lloi'n dechrau. Mae hefyd yn rhoi amser rhydd iddo os yw angen mynd i ffwrdd.



Mae'r gwyndwn llysiâu'n chwarae rhan fawr yn system Rob Havard gan eu bod yn helpu i gadw'i anifeiliaid yn iach ac mae system o blanhigion amrywiol yn bwysig i gynhyrchu da byw. Eglurodd Rob bod gadael y tir yn wag yn bwysig i dyfu mwy o borfa, ei ddamcaniaeth yw pori traean, sathru traean a gadael traean ac yna cyfnod o'i adael yn wag. Mae'r cyfnod hwn yn rhan bwysig.

AUORE GUEZENOC



Yn Ebrill, croesewais Aurore Guezenoc i Esgairllaethdy. Aurore yw merch George Guezenoc y bûm yn ymweld ag ef yn Llydaw yn Hydref. Oherwydd ymrwymïadau gwaith a thywydd anffafriol yn Llydaw a'r ffaith ei bod yn adeg brysur o'r flwyddyn ar eu fferm, nid oedd George yn gallu dod gyda'i ferch. Gan fod Aurore yn gweithio ar fferm y teulu ac yn helpu ei rhedeg, a gan mai hi oedd y cyfieithydd pan ymwelais â Llydaw, roedd yn ffynhonnell wybodaeth werthfawr dros ben. Eglurodd Aurore sut maent yn rheoli chwyn wrth gynhyrchu llysiâu a grawnfwydydd organig. Roedd hyn yn berthnasol i mi ar y pryd gan fy mod ar fin dechrau paratoi caeau brassica'r gaeaf blaenorol ar gyfer opsiwn Glastir i dyfu ydau gwanwyn a chodlysiâu heb chwistrellu, fy nghae o fetys porthiant ac ailhadu fy ngwyndwn llysiâu. Awgrymodd Aurore fy mod yn trin y caeau (gyda pheiriant palu) o leiaf 3 gwaith y flwyddyn cyn plannu hadau, gan adael bwlch o 7-10 diwrnod rhyngddynt. Yr enw oedd ganddynt ar hyn oedd hadu ffug gan eich bod yn paratoi'r cae ar gyfer ei hadu ond yna'n ei drin wedyn, yn dibynnu ar y tywydd. Y syniad yw y bydd gennyh wely glân di-chwyn ar gyfer plannu hadau heb fod angen defnyddio plaladdwyr. Eglurodd Aurore fod defnyddio plaladdwyr a chwynladdwyr yn niweidio'r pryfed yn y pridd sydd mor bwysig i fioamrywiaeth ac fe'm hatgoffodd am yr hyn yr oedd ei thad wedi'i ddweud wrthyf yn Llydaw, am bob un pla mae 1700 o ysglyfaethwyr. Ei chyngor i mi oedd cael tail fferm gan ffermwyr allbwn isel eraill os nad oedd gennyf ddigon fy hun yn hytrach na phrynu bagiau gwrtaitth artiffisial oherwydd byddai hwnnw'n asidig ac yn lleihau lefel pH tra bod tail fferm yn niwtral. Mae chwalu calch hefyd yn bwysig i sicrhau bod pH y pridd yn gywir ar gyfer cynhyrchu llysiâu. Dywedodd eu bod yn ffodus yn Llydaw gan fod y pridd yno'n naturiol yn pH7.



Tra bu Aurore yma, roeddem yn brysur gyda'r cyfnod wyna a manteisiais ar ei chymorth, gan ei haddysgu am system gynhyrchu ar fferm ddefaid. Hefyd neilltuwyd amser i ddangos mwy o'r ardal leol a'r dirwedd iddi, gan ymweld â Llynfan Fach.



BETH DDYSGAIS O'R GYFNEWIDFA REOLAETH

Y prif beth a ddysgais yw waeth ble'r ewch chi roedd ffermwyr yn barod i rannu eu gwybodaeth a'u brwdfrydedd dros yr hyn yr oeddent yn credu ynddo a'r hyn y maent yn ei gyflawni.

Y pridd yw'r peth pwysicaf ar unrhyw fferm, gall pridd iach wneud y gwahaniaeth rhwng elw a cholled. Ddylem ni ddim rhoi cymaint o bwyslais ar ddim ond N P a K gan fod y pH, elfennau hybrin a mwynau'n bwysig hefyd. Rhaid gofalu am ddeunydd organig y pridd. Mae bagiau gwrtaitth artiffisial yn asidig ac yn gostwng pH pridd yn gyflym. Mae hyn yn rhywbeth sy'n destun pryder i mi, ydym ni'n cael ein dylanwadu dan gwmnïau cemegau a gwrtaitth mawr a chynrychiolwyr i wario mwy a chael llai o elw?

Gweithio gyda natur ac nid yn ei erbyn yw'r unig ffordd i sicrhau llwyddiant yn y tymor hir.

FY NGHAMAU NESAF

Rwyf eisoes wedi ail-hadu rhai o fy ngheaeu brassica gyda gwyndwn llysiâu. Hyd yma nid wyf wedi defnyddio unrhyw gemegau na gwrtaitth yn y caeau yna. Yn hytrach na gwneud ail gnwd o fyrnau gwywair Medi diwethaf cedwais y borfa a bu'r gwartheg yn pori arno yn y gaeaf gan leihau costau cadw gwartheg dan do. Hefyd, defnyddiwyd un cae fel llain i roi gwell porthiant ar gyfer 500 o famogiaid cyn eu troi at yr hwrdd. Mae'r caeau hynny wedi tyfu'n dda iawn yn y gwanwyn o ran twf y borfa a pha mor sydyn wnaethon nhw sychu.

PRIF NEGES I'R DIWYDIANT

Os cewch chi'r cyfle i wneud cais am Gyfnewidfa Reolaeth ewch amdani. Heriwch eich hun i ddysgu rhywbeth gwahanol a rhowch her i'ch hun. Gofalwch am eich priddoedd gan mai dyna'r peth pwysicaf ar eich fferm. Gweithiwch gyda natur ac nid yn ei erbyn. Edrychwch ar y darlun mawr nid yr hyn yr ydych chi'n ei wneud yn unig. Mae bob dydd yn gyfle i ddysgu a pheidiwch byth â chymryd yn ganiataol eich bod yn gwybod popeth, fel y mae ffermwyr yn dueddol o gredu. Mae chwilio am y cydbwysedd priodol rhwng bioamrywiaeth a chynhyrchiant yn allweddol.

Hoffwn ddiolch i bawb a wnaeth fy Nghyfnewidfa Reolaeth yn bosibl, i'r rhai a'm croesawodd, fy nheulu, Cyswllt Ffermio ac yn arbennig, y ddau Ysgolor Nuffield (Geraint Powell a Richard Tudor) a sicrhaodd fy mod yn mynd ar y trywydd iawn gan fy rhoi mewn cysylltiad â ffermwyr allweddol.

Diolch